

DYFO
10DD

DATGANIAD NEWYDDION / NEWS RELEASE

Embargo tan 26^{ain} Tachwedd

Embargo until 26th November

20^{fed} Tachwedd 2024

(see below for English)

Dyfodol i'r laith yn galw am newid polisi cefnogaeth ariannol myfyrwyr Prifysgolion o blaid aros yng Nghymru

Mae Dyfodol i'r laith yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid ei pholisi cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr Prifysgolion i fod o blaid aros yng Nghymru.

Ar ddydd Mawrth 26^{ain} o Dachwedd bydd Dyfodol i'r laith yn cynnal digwyddiad ym Mae Caerdydd a noddir gan Cefin Campbell, Aelod Rhanbarthol Plaid Cymru o'r Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Yn y digwyddiad bydd Elaine Edwards ar ran Dyfodol i'r laith yn datgan nad oes modd cyflawnhau'r gwariant cynyddol ar gefnogi myfyrwyr sy'n dewis mynd i Brifysgolion y tu allan i Gymru.

Meddai Elaine Edwards, "Yn yr hinsawdd economaidd presennol, gyda chwtogi sylweddol ar wariant cyhoeddus yng Nghymru, mae gwario dros hanner biliwn o bunnau o arian prin ar y polisi hwn a thros £11 miliwn ar Gynllun Seren wedi arwain at sefyllfa bellach lle mae 40% o fyfyrwyr Cymru yn cael addysg Prifysgol y tu allan i'r wlad. Mae'r ffigyrâu hyn yn cynyddu'n flynyddol a'r gyllideb gyfatebol wedi cynyddu 60% dros y 5 mlynedd olaf.

Tra nad ydym yn gwrthwynebu cyfleoedd i bobl ifanc ddewis ymhle maent yn derbyn addysg uwch, rhaid cwestiynu doethineb y fath bolisi sy'n arwain at weld llai a llai o fyfyrwyr yn aros yng Nghymru. Gwyddom hefyd fod nifer cynyddol o Brifysgolion Cymru yn wynebu toriadau ariannol difrifol gyda chyrsiau yn diflannu a diswyddo staff academaidd. Dim ond mater o amser fydd hi cyn y gwelwn ddiswyddo gorfodol sylweddol a chyfuno neu gau Prifysgolion. Mae polisi Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y dirywiad yma trwy beidio ffafrio Prifysgolion Cymru."

Canlyniad hyn yw'r argyfwng o ran reciwtio a chadw athrawon dwyieithog i weithio yn Ysgolion Cymraeg a dwyieithog Cymru gan atal twf addysg Gymraeg. Heb hyn does dim gobaith o wireddu'r nod strategol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gydag ecsodus cynyddol o hyd at 60% o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn gadael Cymru bydd llai fyth ar gael i weithio yn y sector addysg. Ni wyddom faint ohonynt sy'n dychwelyd gan nad yw'r Llywodraeth yn monitro hynny. Yn hytrach mae'n gwario arian cyhoeddus pellach ar geisio annog cyfran o'r myfyrwyr hyn i ddychwelyd ar ôl eu hannog i adael yn y lle cyntaf.

Mae Llywodraeth ddatganoledig yr Alban yn talu holl gostau myfyrwyr sy'n aros yn y wlad a Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedyn yn talu hanner cost i'w myfyrwyr astudio yno. O ganlyniad mae dros 93% o fyfyrwyr addysg uwch yr Alban yn aros yno ac yn fwy tebygol o gyfrannu i'r farchnad lafur a magu teuluoedd yn eu mamwlad. Rydym felly yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddilyn yr un trywydd a dangos cefnogaeth glir i ddatblygiad addysg uwch Cymru a Chymraeg.

Yn yr un modd mae cynllun Academi Seren yn hyrwyddo Prifysgolion Grŵp Russell, lle mae 20 o'r 24 Prifysgol yn Lloegr, a dim ond un yng Nghymru. Mae gwir angen dargyfeirio blaenorriaethau'r cynllun i wella safonau addysg disgyblion difreintiedig a'u hannog i astudio yng Nghymru. Mae angen hyrwyddo cyrsiau Prifysgolion Cymru sy'n cynnig cyfleoedd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol llawn crystal â chrysiau Prifysgolion tu hwnt i Gymru. Trwy dargedu disgyblion yn syth ar ôl cychwyn yn yr Ysgol Uwchradd, mae Academi Seren yn creu meddylfryd y dylai'r disgyblion disgleiriaf adael Cymru i gael yr addysg Brifysgol orau. Pa fath o neges yw hynny os mai nod datganoli yw creu cenedl fodern ddwyieithog?

Rydym felly yn galw am drafodaeth frys ar lawr y Senedd a fydd yn arwain at newid cyfeiriad a pholisi er lles Cymru, ein heonomi, ein pobl ifanc a'n sector addysg uwch. Oni wneir hynny bydd y dirwasgiad economaidd lawer gwaeth yng Nghymru oherwydd polisi bwriadol y Llywodraeth.

- DIWEDD -

Am fanylion pellach cysylltwch ag unai:

- **Elaine Edwards, aelod o fwrdd Dyfodol i'r Iaith ar 07976549648 neu eedwards.waun@gmail.com**
- **Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr ar 07989393445 neu dylanbryn@dyfodol.net neu**
- **Heini Gruffudd, Cadeirydd ar 01792 455410 neu 07983 506805 neu heini@gruffudd.org**

Dyfodol i'r Iaith

- Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles y Gymraeg
- Ei nod yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg.

Dyfodol i'r laith calls for a change in Universities' student financial support policy to favour staying in Wales

Dyfodol i'r laith is calling on the Welsh Government to change its financial support policy for University students to favour staying in Wales.

On Tuesday 26th November Dyfodol i'r laith will host an event in Cardiff Bay sponsored by Cefin Campbell, Plaid Cymru's Regional Member of the Senedd for Mid and West Wales. At the event, Elaine Edwards on behalf of Dyfodol i'r laith will declare that the increased spending on supporting students who choose to attend Universities mainly outside Wales is unjustifiable.

Elaine Edwards said, "*In the current economic climate, with a significant cut in public spending in Wales, spending over half a billion pounds of scarce money on this policy and over £11 million on the Seren Academy scheme has led to a situation where 40% of Welsh students receive a University education outside the country. These figures increase annually with the corresponding budget increasing by 60% over the last 5 years.*

While we are not opposed to opportunities for young people to choose where they receive higher education, the wisdom of such a policy which is leading to fewer and fewer students choosing to stay in Wales must be questioned. We also know that a growing number of Welsh Universities are facing severe funding cuts with courses disappearing and academic staff being made redundant. It will only be a matter of time before we see significant compulsory redundancies and the amalgamation or closure of Universities. Welsh Government policy contributes to this decline by not favouring Welsh Universities."

This has resulted in the crisis in recruiting and retaining bilingual teachers to work in Welsh and bilingual Schools preventing the growth of Welsh medium education. Without this growth there is no chance of realising the strategic goal of one million Welsh speakers by 2050. With a growing exodus of up to 60% of Welsh speaking students studying outside Wales even fewer will be available to work in the education sector. We don't know how many return to Wales as the Government does not monitor the situation. Instead, the Government spends even more public money on trying to encourage a proportion of students to return after encouraging them to leave in the first place.

The devolved Scottish Government pays all the costs of students staying in the country and then the Northern Ireland Government pays half the cost for its students to study there. As a result, over 93% of Scottish higher education students stay there and are consequently much more likely to contribute to the labour market and raise families in their home country. We therefore call on the Welsh Government to follow suit and show its clear support for the development of higher education in Wales.

Similarly the Seren Academy scheme promotes Russell Group Universities, where 20 of the 24 Universities involved in the scheme are in England, and only one in Wales. We believe there is a real need to divert the priorities of the scheme to improve the education standards of disadvantaged pupils and encourage them to study in Wales. Courses at Welsh Universities offering opportunities at national and international level need to be promoted just as much as Russell Group University courses. By targeting children as soon as they start Secondary School, the Seren Academy creates a mindset that the brightest pupils should leave Wales to get the best University education. What kind of message is that if the aim of devolution is to create a bilingual modern nation?

We therefore call for urgent debate on the floor of the Senedd that will lead to a change in direction and policy for the benefit of Wales, our economy, our young people and our higher education sector. Unless that is done the economic recession will be much worse in Wales because of the Government's deliberate policy.

- ENDS -

For further information please contact either:

- Elaine Edwards, Dyfodol i'r Iaith Board Member on 07976549648 neu eedwards.waun@gmail.com or
- Dylan Bryn Roberts, Chief Executive on 07989393445 or dylanbryn@dyfodol.net or
- Heini Gruffudd, Chair on 01792 455410 or 07983 506805 or heini@gruffudd.org

Dyfodol i'r Iaith

- Dyfodol i'r Iaith ('A Future for the Language') is a non-political organisation that works for the promotion of the Welsh language.
- Its aim is to exert influence through constitutional means on the substance and content of public policies and legislation in order to promote and nurture the growth of the Welsh language.